# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

# 2020-21




**Cymeradwywyd gan y Cyngor 25 Tachwedd 2021**

# Cynnwys

1 Crynodeb gweithredol ..... 3
2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r Fframwaith Llywodraethu ..... 5
3 Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2020-21 ..... 7
4 Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi ..... 16
5 Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2020-2021) ..... 21
6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2021-2022 ..... 23
7 Casgliad ..... 31
8 Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ..... 31

# 1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Cyngor Sir Ceredigion (‘y Cyngor’) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â’r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol amdano a’i fod yn cael ei ddefnyddio’n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae’r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ei ddinasyddion. Caiff yr ymrwymiad hwnnw ei egluro yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor ac mae’n disgrifio sut y bydd y Cyngor yn mynd i’r afael â’r heriau sydd o’i flaen ac yn manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd. Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y cyfnod hwn yw bod y Cyngor *‘yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy’n rhoi gwerth am arian er mwyn cynnal economi gryf, amgylchedd iach a hyrwyddo lles ein pobl a’n cymunedau’* a bwriedir gwireddu’r weledigaeth drwy gyflawni’r Blaenoriaethau Corfforaethol, sef:

1. Hybu’r Economi;
2. Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl;
3. Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd; a
4. Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol.

I fod yn llwyddiannus, rhaid bod gan y Cyngor sylfaen gref o drefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, yn unol â’n gwerthoedd. Caiff y Cod Lleol ei ategu gan Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu sy’n egluro’r sicrwydd y bydd y Cyngor yn ceisio ei gael, a’r modd y gwneir hynny.

Mae copi o God Llywodraethu Corfforaethol Lleol a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor yn https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/datganiad-llywodraethu-blynyddol/

Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd i drefnu ei fod yn sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff ei swyddogaethau eu cyflawni, gan ystyried cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Wrth gyflawni’r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rhaid i’r Cyngor sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei fusnes a hwyluso camau i gyflawni ei swyddogaethau’n effeithiol, sy’n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risgiau. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 hefyd wedi cael Cydsyniad Brenhinol ac mae rhai o’i hadrannau eisoes mewn grym. Mae’r Cyngor wedi dechrau cydymffurfio â’r adrannau hynny o’r Ddeddf yn barod.

Cafodd Fframwaith Llywodraethu ei ddatblygu yn 2010 ac mae wedi’i ddiwygio yn unol â fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government*

*2016.* Caiff y fframwaith ei ddefnyddio i adolygu'r trefniadau llywodraethu bob blwyddyn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant y bwriedir iddynt gyfrannu cymaint ag sy'n bosibl at y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae disgwyl hefyd iddynt gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni eu hamcanion.

Yn dilyn yr adolygiad ac yn unol â gofynion y Fframwaith, cafodd Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol ei gymeradwyo'n wreiddiol gan y Cyngor ar 29 Mehefin 2017 a chafodd fersiwn wedi'i ddiweddaru ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 19 Mawrth 2020.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn dod â holl drefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd ynghyd mewn un ddogfen. Mae'r Cod yn seiliedig ar y canllawiau arfer gorau a nodir yn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government*.

Disgwylir y bydd Cod 2021/22 yn cael ei adolygu ymhellach er mwyn ystyried newidiadau parhaus i drefniadau llywodraethu oherwydd y pandemig coronafeirws.

Mae Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar y fframwaith rhyngwladol *International Framework: Good Governance in the Public Sector* (CIPFA/IFAC, 2014) a'r saith egwyddor a ganlyn:

A: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

B: Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid

C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

D: Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd

E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo

F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn

G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y ddogfen hon) sy'n esbonio sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r saith egwyddor graidd a'r is-egwyddorion sydd yn ei Fframwaith Llywodraethu a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, a sut y mae'n bodloni gofyniad Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio

(Cymru) 2014. Mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfio ar gyfer y flwyddyn sy’n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo’r Datganiad o Gyfrifon.

Mae Arweinydd y Cyngor a’r Prif Weithredwr yn cydnabod pwysigrwydd cael sylfaen gref o drefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Maent yn addo ymrwymo i fynd i’r afael â’r materion a gaiff eu hamlygu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, a gwella trefniadau llywodraethu’r Cyngor ymhellach.

Mae’r Arweinydd a’r Prif Weithredwr yn cadarnhau eu bod wedi cael eu hysbysu ynghylch goblygiadau’r adolygiad gan yr uwch-reolwyr a’r Pwyllgor Archwilio, ac maent yn fodlon y bydd y camau a amlinellir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn mynd i’r afael â’r meysydd ar gyfer gwella.

Llofnodwyd ar ran **Cyngor Sir Ceredigion**



**Arweinydd y Cyngor**

Dyddiad: 25/11/2021



**Prif Weithredwr**

Dyddiad: 25/11/2021

## 2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau’r Fframwaith Llywodraethu

Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i ddangos bod ganddo’r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i berfformio’n effeithiol.

Mae Arweinydd y Cyngor yn darparu cyfeiriad strategol clir ac mae’r Cyfansoddiad yn diffinio rolau’r Cynghorwyr a’r Swyddogion yn glir. Mae Timau Archwilio Mewnol ac Allanol, y Pwyllgor Moeseg a Safonau a’r Pwyllgor Archwilio wedi ymrwymo i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn effeithiol ac yn gadarn.

Mae’r Cyngor wedi cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn erbyn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government (2016)*. Roedd yr adolygiad yn cynnwys gweithdy ar gyfer Aelodau/Swyddogion, lle cafodd dogfen Fframwaith Llywodraethu’r Cyngor ei dadansoddi a’i hadolygu, ac roedd yr Aelodau canlynol yn bresennol ynddo: Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Aelod Lleyg y Pwyllgor Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Yn ogystal, cymerodd y

Swyddog Monitro; y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol; y Swyddog Llywodraethu; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd; y Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol a'r Rheolwr Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ran hefyd. Yn dilyn y gweithdy, cafodd y sawl a oedd yn bresennol gyfle pellach i ystyried dogfen Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor a chafodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael; a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid gyfle i ystyried y ddogfen Fframwaith Llywodraethu.

Yn ystod y gweithdy, cafodd pob ymddygiad ei gyflwyno a'i sgorio ar sail system sgorio, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 1/2 | Annerbyniol – angen gweithredu'n syth |
| 3/4 | Yn llai na boddhaol – angen gweithredu ar frys (cyn pen 3-6 mis) |
| 5/6 | Boddhaol – angen gweithredu (cyn diwedd y flwyddyn, 9-12 mis) |
| 7/8 | Derbyniol – gallai fod angen mân addasiadau |
| 9/10 | Da – ystyrir bod y Llywodraethu, yn gyffredinol, yn dda a'i fod yn bodloni arfer gorau – nid oes angen unrhyw gamau gweithredu pellach |

Cafodd y Fframwaith Llywodraethu ei ddosbarthu hefyd i swyddogion eraill sydd â chyfrifoldebau llywodraethu/rheoli yn y Cyngor. Cyflwynwyd y fframwaith i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror 2021.

Mae effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu yn seiliedig ar dystiolaeth a sicrwydd sy'n deillio o:

- Archwiliadau ac arolygiadau mewnol ac allanol;
- Rheolaeth ariannol;
- Rheoli risgiau a pherfformiad;
- Safonau moesegol a chyfreithiol;
- Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac uwch-reolwyr eraill, gan gynnwys y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro;
- Y Pwyllgor Archwilio; a'r
- Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Yn ogystal, mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol o'r Fframwaith Llywodraethu ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth yn flynyddol. Ni chafodd yr adolygiad o Fframwaith 2019/20 ei gynnal yn brydlon oherwydd y pandemig ond cafodd ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2020. Rhoddodd lefel 'uchel' o sicrwydd bod system gryf ar waith ar gyfer craffu a sicrhau cadernid. Adroddwyd ynghylch hynny yn Adroddiad Cynnydd Chwarter 3 i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror 2021. Rhoddwyd lefel uchel o sicrwydd hefyd yn yr

adolygiad o Fframwaith 2020/21 ac adroddwyd hynny i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2021.

Mae'r Cyngor wedi llunio Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu'r systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r awdurdod, ac sy'n amlinellu'r gweithgareddau a ddefnyddir ganddo i fod yn atebol i'r gymuned, ymgysylltu â hi a'i harwain. Mae'r Cod yn galluogi'r awdurdod i fonitro'r modd y caiff ei amcanion strategol eu cyflawni, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol costeffeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r Cod hwnnw, a bwriedir iddi reoli risg at lefel resymol. Ni all ddileu pob risg y bydd yr awdurdod yn methu â chyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion, ac felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus y bwriedir iddi adnabod a blaenoriaethu'r risgiau sy'n ymwneud â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor; gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd a'u heffaith os byddant yn digwydd; a rheoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol ar gael ar wefan y Cyngor yn https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/datganiad-llywodraethu-blynyddol/.

## 3 Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2020-21

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn amlinellu ymrwymiad yr awdurdod lleol i egwyddorion llywodraethu da. Yn y paragraffau canlynol, amlinellir y cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2020-21.

A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith:

- Parhaodd y Cyfansoddiad i fod yn destun rhagor o waith monitro ac adolygu yn ystod 2020-21 a chyhoeddwyd fersiwn diwygiedig ar wefan y Cyngor ym mis Mawrth 2020. Mae Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad, sy'n gytbwys o safbwynt gwleidyddol, wedi'i sefydlu i ysgogi newidiadau pellach er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol fel y bo angen;
- Cafodd copi drafft o Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2019-20 ei gyflwyno i'r Cyngor ar 16 Hydref 2020 ac roedd yn cynnwys adolygiad o'r Amcanion Llesiant. Rhaid i bob aelod o staff gwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gofynion;

- Rhoddodd y Swyddog Monitro wybod i'r Prif Swyddogion am yr angen i ddatgan cysylltiadau personol agos â Swyddogion neu Aelodau eraill, ac roedd hynny'n cynnwys cynghori'r Prif Swyddogion mewn cyfarfodydd o'r Grŵp Arwain;
- Mae'r Swyddog Monitro yn diweddaru'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion;
- Cafodd yr Aelodau a'r aelodau annibynnol cyfetholedig eu hatgoffa gan y Swyddog Monitro am y rheidrwydd sydd arnynt i ddatgan buddiant yng nghyswllt grantiau estynedig i fusnesau oherwydd cyfnodau clo Covid-19;
- Mae'r ffurflenni gollyngiadau ar gyfer Aelodau wedi'u diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol;
- Cafodd y Swyddogion eu hatgoffa gan y Swyddog Monitro am y gofynion ynghylch datgan lletygarwch a buddiannau;
- Cwblhaodd yr Aelodau fodiwl hyfforddiant ynghylch adnoddau dynol, a chaiff hyfforddiant ynghylch safonau ac ymddygiad ei ddarparu i reolwyr ar gyfer staff;
- Mae'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2020-2021 wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022;
- Mae datganiadau blynyddol o fuddiannau gan y Prif Swyddogion yn parhau'n ofynnol a cheir rheidrwydd parhaus i ddatgan buddiannau, sy'n cynnwys rheidrwydd ar yr Aelodau (gan gynnwys yr aelodau annibynnol/lleyg o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Archwilio);
- Ceir trafodaethau rheolaidd parhaus ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a rheoleiddwyr eraill sy'n cynnwys Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio;
- Cafodd Adroddiad Blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio ei gyflwyno i'r Cyngor ar 10 Rhagfyr 2020 a'i gymeradwyo;
- Cafodd Strwythur Llywodraethu ar gyfer Covid-19 ei gyflwyno, a oedd yn cynnwys pwerau dirprwyedig dros dro ar gyfer Prif Weithredwr a Grŵp Arwain y Cyngor drwy ddefnyddio Penderfyniadau Brys, ac ar gyfer penderfyniadau'n ymwneud ag ymateb y Cyngor i COVID-19), yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Mae Cofnodion o Benderfyniadau Brys, ar gyfer penderfyniadau brys a wnaed gan y Grŵp Arwain ar gyfer Covid-19 ('y Grŵp Rheoli Aur'), wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Caiff Penderfyniad Brys yr Arweinydd ei adolygu bob tri mis;
- Mae'r Cyngor yn paratoi i gydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 o safbwynt y Pwyllgor Archwilio (bydd ei gylch gorchwyl, ei faes gwaith a'i gyfansoddiad yn cael eu hadolygu).
  Mae'r newidiadau yn cynnwys:
  - newid yr enw i 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio';

- sicrhau bod 2/3 o'r aelodau yn Gynghorwyr a bod 1/3 o'r aelodau yn lleygwyr (fel y diffinnir yn y Ddeddf);
- dyletswydd y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Is-gadeirydd ei hun;
- rhaid bod y Cadeirydd yn lleygwr;
- rhaid nad yw'r Is-gadeirydd yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol; ac
- yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, dim ond aelodau anweithredol all gadeirio cyfarfodydd;

- Cymeradwywyd diweddariad o'r Siarter Archwilio Mewnol gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror 2021;
- Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol ar waith, sef ymarfer cenedlaethol paru data er mwyn canfod twyll;
- Cafodd adroddiad blynyddol y Tîm Archwilio Mewnol ar atal twyll ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau sydd ar waith;
- Mae'r Llawlyfr i Weithwyr yn cael ei adolygu, mae ar gael i staff ac mae'n cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol;
- Mae hyfforddiant ynghylch caffael yn cael ei gyflwyno i staff;
- Mae'r Cyngor wedi datblygu Polisi Caethwasiaeth Fodern (a anfonir at gontractwyr y Cyngor), Datganiad Blynyddol Atal Caethwasiaeth 2019-2020 a Chod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi;
- Mae 'cynllun y ffordd ymlaen' wedi'i lunio sy'n amlinellu'r gwasanaethau a ddarperir ac na ddarperir gan y Cyngor, a chynlluniau'r Cyngor, ac sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd ar gyfer Ceredigion. Mae'n rhoi trosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir yn sgil y pandemig Covid-19, canllawiau cyfredol a nifer yr achosion yng Ngheredigion;
- Bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn effeithio ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae paratoadau ar y gweill i gydymffurfio â hi.

B. Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid:

- Mae'r holl adroddiadau blynyddol statudol ar gael ar wefan y Cyngor, ac mae llu o feysydd gwasanaeth i'w gweld ar-lein i ddangos ymrwymiad i fod yn agored;
- Caiff cyfarfodydd y Cyngor eu gweddarlledu ar hyn o bryd oherwydd y pandemig ond maent i gyd yn agored i'r cyhoedd ac mae'r papurau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor (ac eithrio adroddiadau esempt);
- Adroddir ynghylch casgliadau Asesiadau Effaith Integredig i'r Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, ac aeth naw o Asesiadau Effaith Integredig gerbron y Cabinet yn ystod 2020-2021 (hyd at fis Chwefror 2021).

- Mae'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2020-2021 wedi'u pennu er mwyn cyflawni Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022;
- Mae'r Polisi a'r Weithdrefn Gwyno ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u hadolygu;
- Cafodd ymgyngoriadau eu cwblhau yn 2020-2021 i sicrhau bod y Cyngor yn cael mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaeth, ac maent ar gael ar wefan y Cyngor, e.e. ymgynghoriad ar y Cyfnod Prawf Gwerthu Bwyd a Diod ar Bromenâd Aberystwyth – Holiadur Adborth gan y Cyhoedd / Masnachwyr, ac ymgynghoriad ar ddatblygu Strategaeth Economaidd newydd Ceredigion 2020-2035;
- Oherwydd y coronafeirws, mae'r Cyngor wedi ymgynghori o bell drwy gynadleddau fideo ac arolygon electronig;
- Mae Polisi Ymgysylltu Drafft newydd wedi'i baratoi er mwyn ystyried y fethodoleg ymgysylltu ddiweddaraf, gan gynnwys dulliau ymgysylltu digidol;
- Mae Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd – Trosolwg a Chraffu (2018) wedi'i ddefnyddio o hyd ar sawl achlysur;
- Mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus ledled y canolbarth a'r gorllewin, ac mae'r adolygiad ffurfiol o bartneriaethau sy'n perthyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i gwblhau. Mae'r strwythur newydd ar gyfer partneriaethau wedi bod ar waith ers mis Mehefin 2018 a chaiff ei adolygu'n rheolaidd;
- Cafodd canllawiau ynghylch brandio corfforaethol eu cyhoeddi (ym mis Mai 2019).

C. Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy:

- Cafodd copi drafft o Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2019-20 ei gyflwyno i'r Cyngor ar 16 Hydref 2020 ac roedd yn cynnwys adolygiad o'r Amcanion Llesiant. Rhaid i bob aelod o staff gwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol ohoni;
- Cafodd yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn dilyn yr archwiliad diweddaraf o Gynllun Gwella'r Cyngor (2019-2020) ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2020. Roedd yr adroddiad yn cynnwys casgliadau cadarnhaol ynghylch perfformiad y Cyngor, ei drefniadau ariannol a'i drefniadau llywodraethu, a nododd fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau;

- Roedd pecyn e-ddysgu ar reoli risgiau wedi'i ddatblygu ar gyfer pob aelod o staff. Cafodd yr hyfforddiant ei gynnal yn 2019 a threfnwyd bod yr uwch-reolwyr yn mynychu gweithdy gydag yswirwyr;
- Cafodd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ei gyhoeddi;
- Mae adroddiad monitro blynyddol 2019-2020 ynghylch y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wrthi'n cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo. Pan fydd wedi'i gymeradwyo, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor;
- Rhaid i bob aelod o staff gwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ynghylch ymwybyddiaeth o'r Gymraeg;
- Cafodd Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chanmoliaeth 2019/20 ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 10 Rhagfyr 2020;
- Mae'r Archwilydd Penodedig yn ystyried trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;
- Mae Offeryn Asesiad Effaith Integredig a Chanllawiau ar gael, a chânt eu defnyddio i gynorthwyo prosesau gwneud penderfyniadau.

D. Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd:

- Mae trefniadau Rheoli Perfformiad corfforaethol ar waith i sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni;
- Mae Offeryn Asesiad Effaith Integredig a Chanllawiau ar gael a chaiff templedi adrodd safonol eu defnyddio yn ystod prosesau gwneud penderfyniadau;
- Mae Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol wedi'i sefydlu er mwyn ffurfioli'r gwaith o ddatblygu a rheoli prosiectau, ac mae'n cwrdd bob pythefnos;
- Cafodd adroddiad ei ddarparu i'r Cabinet ar 24 Medi 2019 ynghylch Adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risgiau Corfforaethol (gan gynnwys y Polisi Rheoli Risgiau). Cafodd y Polisi a'r Fframwaith eu cymeradwyo a chafodd rhaglen o hyfforddiant i Aelodau, uwch-reolwyr a rheolwyr ei chyflwyno. Sicrhawyd bod y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risgiau newydd, a ategir gan y Fframwaith Rheoli Risgiau, ar gael i bob aelod o staff. Mae'r dogfennau wedi'u diwygio i adlewyrchu risgiau ychwanegol a chynnwys gwybodaeth gefndir er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus;
- Mae adolygiad o brosiectau cydweithredol ar y gweill. Mae'r adolygiad yn cynnwys adran ar asesu risgiau ar draws prosiectau cydweithredol, a bydd newidiadau deddfwriaethol yn cael eu hystyried, e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;
- Mae Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol 2019-22 yn hybu gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid;

- Cafodd Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2020/2021 eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 12 Tachwedd 2020 er mwyn cael sicrwydd ynghylch rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn.

E. Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo:

- Cafodd arolwg ynghylch hunanasesu ei gwblhau gan y swyddogaeth graffu;
- Mae'r gwaith o ad-drefnu strwythur y Grŵp Arwain a'r Uwch-swyddogion yn barhaus dros nifer o flynyddoedd wedi diffinio'r rolau hyn a'r modd y maent yn integreiddio â'i gilydd;
- Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn egluro'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau:
- Mae Cynllun Dirprwyo yn bodoli ac mae'n nodi cyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion yn glir;
- Mae disgrifiadau swydd yn diffinio'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau y mae'n ofynnol eu cyflawni mewn swyddi;
- Mae adolygiadau perfformiad yn cysylltu ag amcanion corfforaethol a strategol, a chawsant eu cynnal ar gyfer chwarter olaf 2020-21;
- Mae Cerinet (mewnrwyd y Cyngor) wedi'i adolygu yn barhaus a'i wella o safbwynt effeithiolrwydd;
- Mae amryw bolisïau adnoddau dynol ar gael i staff ac Aelodau, sy'n cynnwys gwybodaeth a chyfleusterau ynglŷn â llesiant;
- Caiff rhaglen sefydlu ei darparu ar gyfer Aelodau newydd. Caiff hyfforddiant parhaus ei drefnu ar gyfer materion penodol er mwyn gwella dealltwriaeth o bynciau;
- Mae Cynllun y Gweithlu 2017-2022 yn cynnwys camau gweithredu i sicrhau datblygiad staff ym maes themâu allweddol;
- Mae nifer o gyrsiau hyfforddiant i staff ar gael drwy fodiwlau e-ddysgu.

F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn:

- Cafodd y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risgiau Corfforaethol a'r Fframwaith Rheoli Risgiau eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Medi 2019, ac mae'r Cyngor yn parhau i lunio strategaethau a chynlluniau gan ystyried y risgiau a achosir gan y pandemig Covid-19;
- Caiff y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol ei chyflwyno'n rheolaidd i'r Grŵp Arwain at ddibenion monitro, ac mae'n eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio;
- Mae'r risgiau corfforaethol cyfredol a thymor hwy a nodwyd, sydd wedi'u hachosi gan y pandemig, wedi'u crynhoi ac wedi'u hychwanegu at y

Gofrestr Risgiau Gorfforaethol fel RO18, a byddant yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y Grŵp Arwain a'r Pwyllgor Archwilio;

- Cyhoeddodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella ym mis Hydref 2019 (cafodd Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2019-2020 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 12 Tachwedd 2020);
- Mae'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2020-2021 wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022;
- Caiff gwaith asesu risgiau ei gyflawni yng nghyswllt y Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol, ac mae'r Cynllun yn ystyried nodau ac amcanion y Cyngor a'i bolisïau a'i weithdrefnau corfforaethol. Mae'n cynnwys adolygu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli risgiau, a rhoi prawf ar y trefniadau lliniaru sydd ar waith ar gyfer sampl o risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol (cafodd Cynllun Archwilio Mewnol 2020-2021 ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Tachwedd 2020);
- Caiff gwaith monitro ariannol ei gyflawni'n rheolaidd ym mhob rhan o'r Cyngor dan drefniant cyfrifyddol sydd wedi'i ddatganoli, a chaiff adroddiadau ffurfiol eu cyflwyno i'r Cabinet;
- Caiff Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarterol eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio at ddibenion monitro (e.e. cafodd Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Medi 2020 ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Tachwedd 2020);
- Caiff crynodeb o'r gwaith a gyflawnir ynghyd â barn archwilio am sicrwydd eu darparu bob blwyddyn yn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn;
- Caiff rheolaeth fewnol, risg a phrosesau llywodraethu eu monitro'n unol â'r Siarter Archwilio Mewnol ac yn unol â'r Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol.
- Mae'r Tîm Archwilio Mewnol yn cyflwyno Adroddiad Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn (cafodd Adroddiad Atal Twyll 2019-2020 ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Tachwedd 2020);
- Cafodd y Tîm Archwilio Mewnol ei ad-drefnu ym mis Tachwedd 2020 ac mae adnoddau dynol y gwasanaeth wedi bod yn gyflawn ers 1 Rhagfyr 2020;
- Mae tri aelod o'r Tîm Archwilio Mewnol wrthi ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer cymhwyster hyfforddiant proffesiynol y Sefydliad Archwilwyr Mewnol;
- Bydd cylch gorchwyl, maes gwaith a chyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio yn cael eu hadolygu yng ngoleuni Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

  Mae'r newidiadau yn cynnwys:

  - newid yr enw i 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio';

- sicrhau bod 2/3 o'r aelodau yn Gynghorwyr a bod 1/3 o'r aelodau yn lleygwyr (fel y diffinnir yn y Ddeddf);
- dyletswydd y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Is-gadeirydd ei hun;
- rhaid bod y Cadeirydd yn lleygwr;
- rhaid nad yw'r Is-gadeirydd yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol; ac
- yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, dim ond aelodau anweithredol all gadeirio cyfarfodydd;

- Bydd aelodau lleyg yn cael eu recriwtio yn ystod 2020/21, gan ystyried gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r adeg y bydd cyfnod yr aelod lleyg presennol yn ei swydd yn dod i ben;
- Cafodd y disgrifiad swydd, y fanyleb person a'r meini prawf eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 10 Rhagfyr 2020;
- Mae'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried adroddiadau'r Cabinet ynghylch rheoli cyfalaf;
- Mae trefniadau craffu ar waith sy'n cael eu cefnogi ac sy'n rhoi cyfleoedd i herio penderfyniadau ac adolygu'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu;
- Caiff arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio eu gweithredu i sicrhau atebolrwydd effeithiol;
- Cafodd y Strategaeth TGCh a Gwasanaethau Digidol ar gyfer 2018-22 ei chymeradwyo, ar y cyd â pholisïau eraill, canllawiau a hyfforddiant gorfodol i sicrhau diogelwch data;
- Caiff adroddiadau blynyddol eu cyhoeddi, sy'n cynnwys:
  - Copi drafft o Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2019-20 a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 16 Hydref 2020 ac a oedd yn cynnwys adolygiad o'r Amcanion Llesiant; a
  - Datganiad Ariannol Blynyddol sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

G. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol:

- Mae cyfarfodydd y Cyngor yn dal i gael eu gweddarlledu;
- Caiff cyrsiau hyfforddiant sector cyhoeddus Modern.Gov a system hyfforddiant newydd eu defnyddio.
- Mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r newidiadau a gyflwynir gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n cynnwys yr angen i'r Cyngor ymgynghori ynghylch strategaeth cyfranogiad y cyhoedd a chyhoeddi strategaeth o'r fath er mwyn cynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a gwella tryloywder;
- Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020, sy'n darparu ar gyfer

mynediad o bell i gyfarfodydd a mynediad gan y cyhoedd/gofynion ynghylch cyhoeddi dogfennau;

- Mae 'cynllun y ffordd ymlaen' y Cyngor yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer dinasyddion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir oherwydd y pandemig Covid-19, er mwyn sicrhau eglurder i drigolion y sir;
- Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn dangos sut y mae'n cydymffurfio â saith egwyddor graidd y Fframwaith Llywodraethu a'r is-egwyddorion sydd yn y Fframwaith ac yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, gan gynnwys sut y mae'n rhoi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei fusnes, yn hwyluso'r broses o gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, ac yn gwneud trefniadau ar gyfer rheoli risgiau (cafodd y Fframwaith Llywodraethu ei ddatblygu yn 2010 ac mae wedi'i adolygu yn unol â fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government 2016*). Cydymffurfir hefyd â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Cafodd y fframwaith ar gyfer llywodraethu corfforaethol ei asesu er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion, e.e. cafodd ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a oedd yn angenrheidiol oherwydd y pandemig Covid-19. Cafwyd penderfyniad gan y Cyngor ynghylch cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, e.e. cafodd ei ddiweddaru a'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 10 Medi 2020 (gyda'r cyfrifon);
- Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn dangos sut y mae ganddo'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i berfformio'n effeithiol. Mae'r Cod Llywodraethu Lleol yn ddatganiad cyhoeddus sy'n egluro'r modd y bydd y Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw;
- Caiff y swyddogaeth Archwilio Mewnol ei harwain gan Reolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol sydd â chymhwyster CIPFA ac sydd â chryn brofiad o weithio ym maes llywodraeth leol. Caiff y rheolwr gymorth gan dîm sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol. Mae tri aelod o staff wrthi ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer cymhwyster y Sefydliad Archwilwyr Mewnol ac mae dau aelod o staff wrthi'n datblygu sgiliau archwilio ym maes TGCh;
- Gall y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol gysylltu'n rhydd ac yn ddirwystr â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac mae'r ddau yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn (mae'r cyfarfodydd hynny wedi parhau i ddigwydd o bell yn ystod y pandemig Covid-19);
- Caiff y Siarter Archwilio Mewnol ei hadolygu'n rheolaidd a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio;
- Ceir perthynas waith dda â rheoleiddwyr allanol, a gweithredir ar sail argymhellion ynghylch camau cywiro;

- Mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol bob blwyddyn.

## 4 Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi

Mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol yn paratoi Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn, a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mehefin fel rheol. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, nid oedd hynny'n bosibl ar gyfer 2019/20 a chafodd yr adroddiad ei gyflwyno'n hwyrach na'r disgwyl. Mae'r adroddiad yn amlinellu canlyniadau unigol a chyfunol yr adolygiadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac mae'n rhoi'r farn archwilio gyffredinol am sicrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio hwnnw. Mae'r sicrwydd a ddarperir hefyd yn rhoi sylw i gynnydd o ran gweithredu gwelliannau, ystyriaeth i'r gofrestr risgiau, a'r sicrwydd a ddarperir mewn adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr allanol. Caiff manylion ynghylch cwmpas y gwaith archwilio, a'r angen i ailflaenoriaethu'n gyson er mwyn sicrhau bod gwaith digonol yn cael ei gyflawni ar gyfer rhoi sicrwydd, eu nodi yn yr adroddiad.

Cafodd cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 1 Ebrill 2020 ei ohirio oherwydd y pandemig, ac arweiniodd hynny at oedi o safbwynt cymeradwyo'r adroddiadau blynyddol Archwilio Mewnol. Cafodd yr adroddiadau hynny eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Tachwedd 2020, ond cafodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio eu hysbysu'n rheolaidd gan y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ynghylch sefyllfa'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys canlyniadau hunanasesiad blynyddol y gwasanaeth archwilio mewnol, sy'n seiliedig ar dempled Nodyn Cymhwyso CIPFA i Lywodraeth Leol. Roedd y templed yn destun adolygiad allanol gan gymheiriaid yn ystod 2016-17, a'r bwriad yw ailadrodd asesiad allanol bob pum mlynedd fel sy'n ofynnol gan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r cynlluniau gwella sy'n deillio o'r asesiadau hyn yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiadau Cynnydd chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio, a chânt eu hadolygu'n flynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.

Mae'r Cynlluniau Gwella yn nodi'r gwelliannau a wnaed ac y bwriedir eu gwneud yn sgil yr argymhellion sy'n codi o'r asesiadau, ynghyd â chanlyniadau Rhaglen Gwella Sicrwydd Ansawdd y gwasanaeth yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn medru monitro cynnydd y gwasanaeth.

Mae Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/4/2020-30/9/2020 (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Tachwedd 2020) ac Adroddiad Cynnydd Chwarter 3 (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Chwefror 2021) yn cynnwys y camau

gweithredu a gymerwyd hyd yma er mwyn cyflawni'r gwelliannau arfaethedig a nodwyd.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn monitro'r camau gweithredu parhaus hynny fel yr argymhellodd Archwilio Cymru yn ei archwiliad yn 2019-20 dan Safon Archwilio Ryngwladol 260, oherwydd yr absenoldebau tymor hir a byr a brofodd yr Adran yn flaenorol. Fodd bynnag, mae'n braf nodi bod strwythur staffio'r gwasanaeth wedi bod yn gyflawn ers 1 Rhagfyr 2020.

Ar 12 Tachwedd 2020 hefyd, cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21 i'r Pwyllgor Archwilio. Diben y Strategaeth a'r Cynllun yw sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni ar lefel ddigon eang i ategu'r farn flynyddol am effeithiolrwydd y systemau llywodraethu, gwaith rheoli risgiau, a rheolaeth fewnol ar draws y Cyngor. Roedd y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21 yn crynhoi'r meysydd gwaith yr oedd yr Adran Archwilio Mewnol yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn, gan ystyried y sefyllfa oherwydd y pandemig.

Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ddarparu ar sail fwy adweithiol eleni, oherwydd yr amryw risgiau a gyflwynwyd yn sgil newidiadau angenrheidiol i arferion gweithio'r Cyngor, er enghraifft grantiau untro'n cael eu rhoi, grwpiau'n cael eu sefydlu i dargedu meysydd penodol lle'r oedd newid yn digwydd, mwy o staff yn gweithio gartref, ac ati. Mae gwaith archwilio mewnol wedi'i asesu yn barhaus ac mae anghenion a blaenoriaethau cyfnewidiol y Cyngor wedi cael eu hystyried yn rheolaidd. Mae'r holl gamau gweithredu a gymerwyd wedi bod yn gyson â'r nodyn cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Cynghori ar Safonau Archwilio Mewnol. At hynny, mae rhagor o adnoddau wedi'u neilltuo i ddatblygu'r system mapio sicrwydd er mwyn ategu ymhellach y sicrwydd a ddarperir ar ddiwedd y flwyddyn.

Yn ei Adroddiad Blynyddol 2020/21 a gyflwynir i'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, daeth y Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol i'r casgliad, yn seiliedig ar:

- y nifer, y cwmpas a'r sicrwydd a gafwyd o'r adolygiadau mewnol ac allanol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021,
- a'r ffaith bod y rheolwyr (pan ar gael) wedi derbyn y camau a gymerwyd,

fod gan Gyngor Sir Ceredigion fframwaith boddhaol ar waith o ran llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaethau mewnol i reoli'r modd y cyflawnir amcanion y sefydliad.

bod gan y Cyngor fframwaith llywodraethu, trefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol foddhaol ar waith i reoli'r modd y caiff amcanion y sefydliad eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

Fodd bynnag, oherwydd effaith barhaus y pandemig, dylid nodi na chafodd unrhyw ysgolion eu hadolygu yn ystod y flwyddyn.

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn destun adolygiad gan Archwilio Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r wybodaeth sydd ganddo ac â deddfwriaeth. Yn ogystal, mae'r Adran Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Blynyddol ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth, fel y nodir ym Mhwynt 2 uchod.

Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid y Cyngor yw Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yr awdurdod, ac mae'n gyfrifol hefyd am Ddiogelu Data a Diogelwch TGCh.

Yn draddodiadol roedd Fforwm yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn cynnwys arbenigwyr yn eu meysydd, e.e. arbenigwyr ym maes Cyfleusterau, Diogelu Data, Diogelwch TG, ynghyd â'r Penaethiaid TG, Gwasanaethau Cyfreithiol ac Adnoddau Dynol a rhai cynrychiolwyr adrannau. Mae'r Fforwm yn cwrdd bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud â risg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth.

Mae rolau allweddol a threfniadau craffu presennol y Tîm Asedau Gwybodaeth fel a ganlyn:

- Swyddog Diogelwch TG sy'n cynghori ynghylch diogelwch data, a chynghorwyr ac ymgynghorwyr allanol a ddefnyddir o bryd i'w gilydd i roi prawf ar drefniadau diogelwch yr awdurdod a chynghori yn eu cylch.
- Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion sy'n cynghori ynghylch cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac y glynir wrthynt.
- Mae'r Grŵp Corfforaethol Diogelu Data (a elwir yn fewnol yn Grŵp Corfforaethol Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) yn cwrdd bob chwarter, a chaiff ei gadeirio gan y Pennaeth Gwasanaeth – Polisi (yr Is-gadeirydd yw'r Pennaeth Gwasanaeth – TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid).
- Cyflwynir Adroddiadau Blynyddol yn ôl yr angen i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor.

Yn ogystal:

- Y Swyddog Diogelwch TG yw Is-gadeirydd Fforwm Diogelwch Sector Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (Cymru WARP) sy'n cwrdd bob chwarter.
- Y Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion yw Cadeirydd Cymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Cymru ac mae'n trefnu digwyddiadau ar draws Cymru.
- Mae'r Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion yn aelod o Banel Sicrhau Ansawdd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn dilyn yr adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu, bernir bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dderbyniol neu'n dda ar y sail bod cyfartaledd y sgorau a roddwyd yn 7/8 – 9/10.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu ymrwymiad y Cyngor i egwyddorion craidd fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government,* yn rhoi arweiniad i'r holl Aelodau a'r holl Swyddogion ar yr agenda lywodraethu.

Bydd adolygu'r Cod Llywodraethu Lleol yn rheolaidd yn rhoi lefel uchel o sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu'n addas i'w diben.

**Y pandemig coronfeirws**

Oherwydd argyfwng y pandemig coronafeirws, cafodd holl swyddfeydd y Cyngor eu cau i'r cyhoedd ar 23 Mawrth 2020.

Yng ngoleuni'r argyfwng cenedlaethol a'r sefyllfa frys a gododd o ganlyniad i'r pandemig, ac er mwyn diogelu buddiannau'r Cyngor a'r cyhoedd, mewn amgylchiadau lle bernir bod y penderfyniad yn un brys ac y byddai unrhyw oedi'n niweidio buddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd yn ddifrifol, rhoddodd Arweinydd y Cyngor bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arwain y Cyngor wneud penderfyniadau ynghylch ymateb y Cyngor i COVID-19.

Cafodd y penderfyniad ei wneud yn unol â rhan 4 Cyfansoddiad y Cyngor.

Mae'r Hysbysiad ynghylch Cofnod o Benderfyniad Brys ar gael ar wefan y Cyngor, ar dudalen y Cyngor ynglŷn â Strwythur Llywodraethu ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ystod COVID-19 (https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/coronafeirws-covid-19/llywodraethiant/). Cafodd y penderfyniad ei adolygu, ac ar 2 Hydref 2020 cymeradwyodd yr Arweinydd benderfyniad diwygiedig. Bydd y penderfyniad yn cael ei adolygu eto.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur wedi'u cynnal er mwyn trafod y pandemig Covid-19 a dulliau o ymdrin yn effeithiol â'r sefyllfa. Mae'r Grŵp Rheoli Aur yn dal i gwrdd sawl gwaith yr wythnos.

Cafodd fforwm y Grŵp Rheoli Aur ei sefydlu ar unwaith i hwyluso gweithrediadau a darparu proses gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf, ac roedd yn cynnal cyfarfodydd rhithwir bob dydd.

Mae llythyr Archwilio Cymru i'r Cyngor ynghylch Adfer yn sgil Covid-19 – Sicrwydd Dros Dro, dyddiedig 19 Hydref 2020, yn crynhoi ei gasgliadau dros dro ar sail camau parhaus i fonitro'r broses o addasu i effaith barhaus y pandemig. Yn yr Atodiad, mae Archwilio Cymru yn cyfeirio at y bwriad, yn rhan o drefniadau addasu'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau, i'r Lòg Penderfyniadau gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac i adroddiad gael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Nododd y Pwyllgor Archwilio gynnwys y llythyr hwn yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2020 a chafodd adroddiad gan y

Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 20 Ionawr 2021, a oedd yn nodi cynnwys yr adroddiad a chynnwys Lòg Penderfyniadau cyfarfodydd y Grŵp Arwain Covid-19, sef y Grŵp Rheoli Aur.

Cafodd y Lòg ei gyhoeddi gyntaf ar wefan y Cyngor ar 5 Tachwedd 2020 (ar gyfer penderfyniadau a wnaed hyd at 30 Medi 2020). Mae'r penderfyniadau a wnaed rhwng 1 Hydref 2020 a 30 Tachwedd 2020 wedi'u cyhoeddi erbyn hyn hefyd.

Roedd gan y Cyngor weledigaeth glir y gallai pob unigolyn, busnes a gwasanaeth yn ddieithriad ei deall a chytuno arni er mwyn sicrhau bod Ceredigion yn llwyddo nid yn unig i leihau nifer y marwolaethau a ragwelid yn ystod penllanw cyntaf yr haint ond, yn bwysicach na hynny, nifer y marwolaethau a ragwelid yn ystod unrhyw benllanw yn y dyfodol. Mae'r weledigaeth wedi'i gweithredu mewn tri chyfnod hyd yma:

- Cyfnod 1: Bod yn barod – Cau pob gwasanaeth nad yw'n hanfodol
- Cyfnod 2: Gweithredu – Darparu gwasanaethau dan amodau cyfnod clo
- Cyfnod 3: Addasu a chydnerthedd hirdymor

Mae Cyfnod 3 yn darparu cyfnod addasu rhwng y ddau gyfnod cyntaf a phedwerydd cyfnod, sef y cyfnod adfer. Er mwyn i hynny allu digwydd, rhaid i'r cyfnod addasu ystyried tair prif elfen a fydd yn hollbwysig ar gyfer delio â COVID-19, gan sicrhau ar yr un pryd bod elfennau o'r cyfnod clo yn cael eu llacio'n ddiogel ac mewn dull strwythuredig a reolir. Y tair elfen yw:

**Cyfyngu + Ynysu + Dileu**

Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu llacio'n raddol ac wrth i Lywodraeth Cymru ddiwygio ei chanllawiau, mae'r Cyngor wrthi'n ystyried sut a phryd y gall ailgyflwyno ei wasanaethau neu sut y byddant yn cael eu darparu mewn ffordd wahanol. Nodir hynny mewn 'cynllun y ffordd ymlaen' ar wefan y Cyngor.

Gobeithir y bydd sectorau busnes a grwpiau cymunedol hefyd yn cyfrannu at y cynllun hwn er mwyn sicrhau eglurder i holl drigolion Ceredigion.

Ar ôl rhoi'r gorau yn syth ar y dechrau i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus, mae cyfarfodydd y Cyngor wedi'u hailgyflwyno ar lwyfan rhithwir.

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd o bell drwy anfon e-bost i'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd er mwyn cael y manylion cofrestru. Mae rhestr lawn o gyfarfodydd o bell ar gael ar wefan y Cyngor. Gellir gwylio'r cyfarfodydd hyn ar dudalen Facebook y Cyngor hefyd.

## 5 Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2020-2021)

Mae’r tabl canlynol yn cofnodi’r camau gweithredu a gymerwyd yn ystod 2020-21 i ddatrys y materion a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2019-2020:

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a’r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu’n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da’r sefydliad drwy wneud hynny | Bydd y Swyddog Monitro yn parhau i gynghori’r Aelodau ynglŷn â’r angen i ddatgan lletygarwch/rhoddion.<br>Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori’r Prif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan:<br>• cysylltiadau personol agos â Swyddogion/Aelodau eraill.<br>Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal adolygiad o’r Aelodau sy’n dal swyddi cyfarwyddwyr pan gânt eu penodi i gyrff allanol.<br>Bydd y ffurflenni gollyngiadau ar gyfer yr Aelodau yn cael eu diweddaru. | Ymgorffori ymddwyn gydag uniondeb ymhellach.<br>Mae’r Swyddog Monitro yn anfon cyngor a nodiadau atgoffa’n rheolaidd at y staff drwy negeseuon e-bost mewnol sy’n rhoi’r newyddion diweddaraf iddynt.<br>Mae’r Swyddog Monitro yn monitro ac yn adolygu datganiadau’r Prif Swyddogion bob blwyddyn.<br>Mae’r ffurflenni gollyngiadau ar gyfer yr Aelodau wedi’u diweddaru. | EP | Mawrth 2021 |
| A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori’r egwyddorion neu’r gwerthoedd gweithredu safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol a | Caiff Cofrestr o Gontractau ei chyhoeddi.<br>Caiff Cofrestr o Benderfyniadau Dirprwyedig ei chyhoeddi.<br>Parhau i fonitro’r nifer sy’n gwneud y modiwl e-ddysgu gorfodol ynghylch | Ymgorffori’r egwyddorion gweithredu safonol ymhellach.<br>Ar y gweill. | EP | Mawrth 2021 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol | chwythu'r chwiban. Mae'n is na'r gofyn ar hyn o bryd.<br>Caiff hyfforddiant ynghylch moeseg/llywodraethu ei gynnig. | | AR | |
| B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored | Cwblhau'r adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth. | Arddangos ymrwymiad i fod yn agored.<br>Ar y gweill. | MNH | Mawrth 2021 |
| B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig | Cwblhau'r adolygiad o'r Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned gan gynnwys darpariaethau ynghylch y modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid yn y dyfodol. | Gwella ymgysylltu â'r gymuned.<br>Wrthi'n cael ei adolygu. | MS | Mawrth 2021 |
| C1.5 Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau'n effeithiol o ran pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael | Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau drwy gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau, gan gynnwys data am gostau a gwerth am arian. | Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau.<br>Ar y gweill. | CAJ | Mawrth 2021 |

Nodwch: Bydd unrhyw gamau nas cwblheir yn llawn erbyn y dyddiad cwblhau yn cael eu trosglwyddo i Gynllun Gweithredu 2020-2021

## 6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2021-2022

Yn sgil gweithredu ac adolygu fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government (2016),* cafodd y materion a ganlyn eu nodi i'w datrys yn ystod 2021-22:

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny | • Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori'r Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan buddiannau mewn sefydliadau sydd neu a allai fod yn gwrthdaro â buddiannau'r Cyngor, sy'n cynnwys:<br>• Contractwyr;<br>• Llywodraethwyr ysgol;<br>• Clercod cynghorau tref a chymuned; ac<br>• Aelodau cynghorau tref a chymuned.<br>Bydd y Swyddog Monitro a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd yn parhau i gynnal adolygiad o'r Aelodau sy'n dal swyddi cyfarwyddwyr, swyddi ymddiriedolwyr neu aelodaeth pan gânt eu penodi i gyrff allanol a phwyllgorau. Bydd y Swyddog Monitro yn ystyried adborth yr Aelodau a gwerth ychwanegol ac yn parhau i | Ymgorffori ymddwyn gydag uniondeb ymhellach. | EP/LE | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | ddiweddaru'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion ac Aelodau.<br><br>• Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori'r Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan:<br>• swyddi cyfarwyddwyr;<br>• cyflogaeth arall;<br>p'un a ydynt yn gwrthdaro â buddiannau'r Cyngor ai peidio.<br>Bydd y Swyddog Monitro yn parhau i gynghori'r Aelodau ynglŷn â'r angen i ddatgan lletygarwch/rhoddion.<br><br>Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori'r Prif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan:<br>• cysylltiadau personol agos â Swyddogion neu Aelodau eraill. | | | |
| A1.3 Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol hyn fel fframwaith ar gyfer gwneud | Bydd y Grŵp Arwain yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am e-ddysgu a bydd yr Adran Adnoddau Dynol yn cyflwyno adroddiadau i'r Grŵp Arwain (rhaid i bob aelod o staff gwblhau modiwl hyfforddiant | Ymgorffori'r egwyddorion gweithredu safonol ymhellach ac arwain drwy esiampl er mwyn gwneud penderfyniadau'n effeithiol. | GE | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| penderfyniadau a chamau gweithredu eraill | e-ddysgu gorfodol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015).<br><br>Parhau i adolygu'r Cyfansoddiad yn ôl yr angen ac er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol. | Cydymffurfio â deddfwriaeth newydd. | EP/HS | Mawrth 2022 |
| A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol | • Mae'r Cyngor yn paratoi i gydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 o safbwynt y Pwyllgor Archwilio (bydd ei gylch gorchwyl, ei faes gwaith a'i gyfansoddiad yn cael eu hadolygu).<br>Mae'r newidiadau yn cynnwys:<br>- newid yr enw i 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio';<br>- sicrhau bod 2/3 o'r aelodau yn Gynghorwyr a bod 1/3 o'r aelodau yn lleygwyr (fel y diffinnir yn y Ddeddf);<br>- dyletswydd y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Is-gadeirydd ei hun;<br>- rhaid bod y Cadeirydd yn lleygwr;<br>- rhaid nad yw'r Is-gadeirydd yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol; ac | Cydymffurfio â deddfwriaeth newydd. | EP/AW/HS | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | - yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, dim ond aelodau anweithredol all gadeirio cyfarfodydd.<br><br>• Caiff Cofrestr o Benderfyniadau Dirprwyedig ei chyhoeddi.<br><br>• Parheir i fonitro'r nifer sy'n gwneud y modiwl e-ddysgu gorfodol ynghylch chwythu'r chwiban. Mae'n is na'r gofyn ar hyn o bryd.<br><br>• Caiff y Polisi Cwynion / Canmoliaeth ei adolygu yn ystod 2020-2021.<br><br>• Caiff hyfforddiant ynghylch moeseg / twyll ei ddarparu. | Ymgorffori'r egwyddorion gweithredu safonol ymhellach a chyfathrebu drwy gyhoeddi dogfennau.<br><br>Ymgorffori'r egwyddorion gweithredu safonol ymhellach ac arwain drwy esiampl.<br><br>Ymgorffori'r egwyddorion gweithredu safonol ymhellach.<br><br>Ymgorffori ymddwyn gydag uniondeb ymhellach. | AR | Mawrth 2022 |
| A3.1 Sicrhau bod Aelodau a staff yn dangos ymrwymiad cadarn i reolaeth y gyfraith a'u bod hefyd | • Bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn effeithio ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y | Cydymffurfio â deddfwriaeth er mwyn dangos ymrwymiad cadarn i reolaeth y gyfraith. | EP | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| yn glynu wrth y deddfau a'r rheoliadau perthnasol | Cyngor, ac mae paratoadau ar y gweill i gydymffurfio â hi. | | | |
| B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored | Mae'r Polisi Rhyddid Gwybodaeth a'r Polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi'u diweddaru. Mae adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth ar y gweill. | Dangos ymrwymiad i fod yn agored. | LE/AW/MNH | Mawrth 2022 |
| B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig | Oherwydd y pandemig Covid-19, mae angen ar hyn o bryd i benderfyniadau gael eu gwneud gan y Grŵp Rheoli Aur oherwydd bod argyfwng. Felly, nid yw'n bosibl ymgynghori yn y gymuned ar hyn o bryd yn achos llawer o wasanaethau, ac o ganlyniad mae'r sgôr wedi'i diwygio er mwyn adlewyrchu hynny.<br><br>Mae'r Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned yn cael ei adolygu a bydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch y modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid yn y dyfodol. | Gwella ymgysylltu â'r gymuned. | AW/MS | Mawrth 2022 |
| B3.4 Gweithredu systemau effeithiol ar gyfer adborth, er mwyn dangos sut y bydd eu barn yn cael ei hystyried | Mae angen gwneud rhagor o waith ar fonitro adborth a bydd y swydd newydd sy'n ymwneud â Chydraddoldebau ac Ymgysylltu yn mynd i'r afael â hynny. | Datblygu gwaith monitro adborth yn rhan o'r swydd newydd sy'n ymwneud â Chydraddoldebau ac | AW/MS | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | Ymgysylltu, a gwella ymgysylltu â’r gymuned. | | |
| C1.5 Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau’n effeithiol o ran pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael | Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau gan gynnwys data am gostau a gwerth am arian. | Bodloni disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau. | AW | Mawrth 2022 |
| D2.3 Ystyried a monitro’r risgiau sy’n wynebu pob partner wrth gydweithio gan gynnwys risgiau a rennir | Caiff newidiadau deddfwriaethol eu hystyried, e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. | Rheoli risgiau a chydymffurfio â deddfwriaeth er mwyn dangos ymrwymiad i reolaeth y gyfraith. | AW/EP | Mawrth 2022 |
| D2.5 Sefydlu dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol perthnasol neu genedlaethol eraill) yn rhan o’r broses gynllunio er mwyn nodi sut y bydd perfformiad gwasanaethau a phrosiectau’n cael ei fesur | Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo er mwyn cysylltu mesurau perfformiad lleol â holl amcanion lefel 1 y Cynllun Busnes. | Datblygu dangosyddion perfformiad er mwyn gwerthuso perfformiad gwasanaethau a phrosiectau’n gywir. | AW | Mawrth 2022 |
| F3.5 Sicrhau bod Pwyllgor Archwilio neu grŵp neu swyddogaeth gyfatebol, sy’n annibynnol ar y weithrediaeth ac | Bydd cylch gorchwyl, maes gwaith a chyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio yn cael eu hadolygu yn sgil Deddf | Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn parhau i | EP/AR/HS | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| sy'n atebol i'r corff llywodraethu, yn darparu ffynhonnell arall o sicrwydd effeithiol ynghylch trefniadau ar gyfer rheoli risgiau a chynnal amgylchedd effeithiol o ran rheolaeth – ffynhonnell y gwrandewir ar ei hargymhellion ac y gweithredir ar sail ei hargymhellion | Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br>Mae'r newidiadau yn cynnwys:<br>- newid yr enw i 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio';<br>- sicrhau bod 2/3 o'r aelodau yn Gynghorwyr a bod 1/3 o'r aelodau yn lleygwyr (fel y diffinnir yn y Ddeddf);<br>- dyletswydd y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Is-gadeirydd ei hun;<br>- rhaid bod y Cadeirydd yn lleygwr;<br>- rhaid nad yw'r Is-gadeirydd yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol; ac<br>- yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, dim ond aelodau anweithredol all gadeirio cyfarfodydd.<br>Mae adolygiad o faint y Pwyllgor Archwilio ar y gweill.<br>Bydd aelodau lleyg yn cael eu recriwtio yn ystod 2020/21, gan ystyried gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r adeg y bydd cyfnod yr aelod lleyg presennol yn ei swydd yn dod i ben. | gydymffurfio â deddfwriaeth, a chael sicrwydd. | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| G1.1 Ysgrifennu a chyfleu adroddiadau ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn arddull ddealladwy sy'n briodol i'r gynulleidfa arfaethedig, a sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar yr adroddiadau a'u cwestiynu | Mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r newidiadau a gyflwynir gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n cynnwys yr angen i'r Cyngor ymgynghori ynghylch strategaeth cyfranogiad y cyhoedd a chyhoeddi strategaeth o'r fath er mwyn cynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a gwella tryloywder. | Gwella ymgysylltu â'r gymuned a bod yn agored. | LE/AM | Mawrth 2022 |
| G3.1 Sicrhau y gweithredir ar sail argymhellion ynghylch camau cywiro, a wneir gan archwilwyr allanol | Monitro cynnydd yng nghyswllt camau gweithredu/argymhellion. | Cael sicrwydd a rheoli risgiau. | EP/AW/SJ | Mawrth 2022 |

# 7 Casgliad

Yn ystod yr adolygiad blynyddol o'r fframwaith llywodraethu, cafodd y cynnydd yn erbyn fframwaith newydd CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance Framework (2016),* ei fesur a chanfuwyd bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dderbyniol neu'n dda.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn, gan gofnodi llwyddiant yn erbyn pob un o'r saith egwyddor graidd.

Mae datblygu Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n dod â'r holl godau a'r holl ddogfennau lleol ynghyd mewn un ddogfen yn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir ar waith. Galluogodd hynny'r Cyngor i ymateb yn gyflym i'r bygythiadau a ddaeth yn sgil y pandemig coronafeirws.

Mae'r Cyngor wedi nodi nifer o fân faterion i'w datrys yn ystod 2021/22 ac mae wedi'u nodi mewn cynllun gweithredu er mwyn eu cwblhau (gweler uchod). Caiff y camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig eu cofnodi, fel y bo'n briodol.

# 8 Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, drwy gydol 2021/22. Byddwn yn monitro'r modd y caiff y camau eu rhoi ar waith a'r modd y maent yn gweithredu, yn rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf. Cydnabyddir y gallai'r pandemig atal rhai o'r camau hyn, a rhoddir sylw i hynny ac adroddir yn briodol wrth y Cyngor yn ei gylch yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22.